

Dechrau Blwyddyn

Darllen: Mathew 2:1–2; 9–12

Wyddon ni fawr ddim amdanyn nhw. Y cwbl a ddywed Efengyl Mathew ydi eu bod nhw wedi teithio o'r dwyrain. Taith bell, bell. Mae traddodiad wedi rhoi enwau iddyn nhw – Melchior, Caspar a Balthasar. Ond tawedog iawn ydi'r Beibl – dim sôn am enwau na gwlad. Dyma'r dieithriaid. Y criw yna sy'n britho tudalennau'r Beibl, y dienw a'r di-wybod-amdano. Pwy ydyn nhw? Pobl ddistaw Duw – y gweithwyr tawel, diymhongar. Y criw cuddiedig. Y criw ar y cyrion.

Rhyw feddwl y mae rhywun y byddai'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid wedi cyrraedd o'u blaenau. Nhw, wedi'r cwbl, oedd y bobl 'grefyddol'. Byddai unrhyw achlust am Feseia wedi'i eni yn siŵr o ddenu'r bobl grefyddol i chwilio amdano. Ond nid felly oedd hi. Pobl ddieithr o wlad bell, bell a gyrrhaeddodd yno (heblaw'r bugeliadaid oddi ar fryniau Bethlehem – pobl y cyrion unwaith eto – y criw cuddiedig, sathredig). Mae Ioan wedi crynhoi'r cyfan yn daclus, 'daeth i'w gartref ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono'.

Mae dyfalbarhad y criw cuddiedig yn destun ynddo'i hun. Yr holl deithio ar draws anialwch, mynyddoedd a dyffrynnoedd, a'r unig ddyfais oedd ganddyn nhw i'w tywys oedd seren. Y ffyrdd anhygyrch a'r blinder. A'r peryglon. Ond doedd dim yn mynd i'w rhwystro. Roeddent ar daith i chwilio am Waredwr y byd. Dyna oedd ar eu meddyliau, a hynny oedd yn eu cynnal ar eu pererindod. Yr holl egni a'r dyheu.

Ond beth oedd yn eu cynnal? Eu ffydd. Doedd dim yn mynd i'w rhwystro. A ffydd yn yr anweledig. Pan welsant y babi bach ar lin ei fam roeddent yn sicr eu bod wedi cyrraedd pen eu taith yn llwyddiannus. Er bod y bobl grefyddol wedi ei glywed a'i weld, eto i gyd doedden nhw ddim wedi'i adnabod fel gobaith y byd. Welodd y seryddion ddim gwrth i'w perswadio nhw. Chlywson nhw ddim darn o'i ddysgeidiaeth i'w tanio, na dim arwydd

o'i dduwioldeb i'w hargyhoeddi. Yr unig beth a welodd y seryddion oedd babi bach, diymadferth ar liniau ei fam, yn wan ac yn dibynnu'n llwyr ar ei gofal a'i chariad; a 'syrthiasant i lawr a'i addoli.'

Gellir gosod ffydd y dieithriaid hyn ochr yn ochr â ffydd y terfysgwr oedd gydag Iesu ar Galfaria (wyddon ni mo'i enw yntau chwaith). Yn ei ddiymadferthedd y gwelodd hwn Iesu, nid ar liniau ei fam y tro hwn ond ar drostan croes, yn unig a diymgeledd. Troes at Iesu ar awr ei wendid gan ofyn iddo gofio amdano. 'Heddiw', meddai yntau, 'byddi gyda mi ym Mharadwys.' (Luc 23 43)

Beth sydd gan y seryddion i'w ddweud wrthyn ni heddiw? Gymaint mwy o wybodaeth a chymaint mwy o dystiolaeth sydd gennym heddiw. Rydyn ni'n ei adnabod yn Arglwydd a'i gydnabod yn Waredwr. Rydyn ni'n gwybod am ei ddysgeidiaeth, yn ymwybodol o'i weithredoedd. Ond ble mae'n ffydd ni? Boed i Efengyl yr Ystwyll ein goleuo a'n codi o'n syrthni a'n difrawder i fywyd newydd.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi edrych ar y bywyd Cristnogol fel pererindod?

Beth ydi her y grefydd Gristnogol i'n cyfnod ni heddiw?